# Table of Contents


Rhaglen 2

Cofnodion y cyfarfod diwethaf 6

6 - Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd 13-14 11

7 (a) - Ffurflen Monitro Haf-Hydref 2014 32

7 (b) (i) - Hunan Arfarniad Ysgol Llanbedrog 34

7 (b) (ii) - Hunan Arfarniad Ysgol Crud y werin.pdf 37

7 (b) (iii) - Hunan Arfarniad Ysgol Edern 40

7 (b) (iv) - Hunan Arfarniad Ysgol Talsarnau 43

7 (c) - Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd 2014 Drafft 46

8 - Cynllun Gweithredu CYSAG Gwynedd 2014 Drafft 52

9 - Cofnodion Drafft Cymdeithas CYSAGau Cymru - 2.7.14 55

- 9 - Atodiad - Rhestr o Aelodau'r Pwyllgor Gwaith CYSAGau Cymru - List of Executive Members 2014 60

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL**

**STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**2.00 p.m. DYDD MERCHER, 22 HYDREF 2014**

**2.00 p.m. WEDNESDAY, 22 OCTOBER 2014**

Lleoliad / Location

**Siambr Hywel Dda**

**Swyddfeydd y Cyngor**

**CAERNARFON**

**Nodwch y lleoliad, o.g.y.dd. / Please note the venue**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GLYNDA O'BRIEN**

**01341 424 301**

Dosbarthwyd: 15.10.14

**CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL**
**STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION**

# AELODAETH / MEMBERSHIP (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Huw Edwards
Selwyn Griffiths
Mair Rowlands

### Annibynnol / Independent (2)

Y Cynghorwyr / Counillors

Tom Ellis
Jean Forsyth

### Llais Gwynedd (2)

Llywarch Bowen Jones
Gwenno Glyn

**Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members –**
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor/Chairman and Vice-Chairman of the Council –
Y Cynghorwyr / Councillors Dewi Owen a / and Dilwyn Morgan

## Cristnogion a Chrefyddau Eraill / Christians and Other Religions

Yr Eglwys Fethodistaidd / Methodist Church - Mr Wyn Myles Meredith
Undeb Bedyddwyr Cymru / Union of Welsh Baptists - Mrs Ruth Davies
Eglwys Bresbyteraidd Cymru / Presbyterian Church of Wales - Dr W Gwyn Lewis
Yr Eglwys yng Nghymru / Church in Wales - Parch. / Rev. Robert Townsend
Yr Annibynnwyr / The Independents – Mr Cynrig Hughes
Yr Eglwys Gatholig / Catholic Church - Mrs Eirian Bradley Roberts

## Athrawon / Teachers

| | | |
|---|---|---|
| ASCL | - | Mrs Alwen Watkin |
| UCAC | - | Mr Noel Dyer |
| NAS/UWT | - | Mrs Miriam Angharad Amlyn |
| NUT | - | Mr Euron Hughes |
| ATL | - | Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination |
| NAHT | - | Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination |

## Aelodau Cyfetholedig / Co-opted Members

Mr Rheinallt Thomas
Mr Gwyn Rhydderch
Y Parch. Aled Davies

**R H A G L E N**

1. **Gweddi**

2. **Ymddiheuriadau**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. **Datgan Cysylltiad Personol**

Derbyn unrhyw gysylltiad personol

4. **Materion Brys**

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

5. **Cofnodion**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o CYSAG a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, 25 Mehefin 2014.

(Copi'n amgaeedig - Papur Gwyn)

6. **Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd 2013-2014**

Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Drafft er ystyriaeth cyn cyhoeddi copi terfynol.

(Copi yn amgaeëdig – Papur Melyn)

7. **Hunan Arfarniadau Ysgolion**

(a) I dderbyn, er gwybodaeth, ffurflen monitro adroddiadau Hunan Arfarniadau ysgolion ar gyfer Haf i Hydref 2014.

(Copi'n amgaeedig – Papur Lelog)

(b) I gyflwyno crynodeb o Hunan Arfarniad yr ysgolion canlynol:

(i) Ysgol Llanbedrog
(ii) Ysgol Crud y Werin
(iii) Ysgol Edern
(iv) Ysgol Talsarnau

(Copiau'n amgaeedig – Papur Gwyrdd)

(c) I dderbyn asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

(Copi'n amgaeedig – papur hufen)

**8.** **Cynllun Datblygu Drafft CYSAG Gwynedd 2014-15**

I ystyried cynllun datblygu drafft ar gyfer CYSAG Gwynedd am y flwyddyn 2014-15.

(Copi'n amgaeedig – papur pinc)

**9.** **Cymdeithas CYSAGau Cymru**

I dderbyn cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2014 yn Llandrindod Wells.

(Copi'n amgaeedig - Papur Eog)

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 25/06/14

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Tom Ellis, Jean Forsyth, Selwyn Griffiths.

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mr Wyn Myles Meredith (Yr Eglwys Fethodistaidd), Mrs Ruth Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Cynrig Ellis Hughes (Yr Annibynwyr).

**Aelod Cyfetholedig:** Mr Rheinallt Thomas

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), a Mrs Miriam Amlyn (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**GwE:** Miss Bethan James (Arweinydd Sustem GwE)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Louise Hughes, Llywarch Bowen Jones.

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Mr Noel Dyer.

**2. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.**

**3. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol Mr Wyn Myles Meredith yn Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2014/15.**

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATER BRYS**

(Nid oedd yr eitem isod wedi eu cynnwys ar y Rhaglen ond cytunodd y Cadeirydd i'w hystyried dan Adran 100 (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972).

**Adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Trefniadau Asesu Cymru**

Adroddodd Miss Bethan James, Arweinydd Sustem GwE, bod yr Athro Graham Donaldson wedi'i benodi i arwain adolygiad eang ac annibynnol o drefniadau, asesu a'r cwricwlwm

cenedlaethol. Disgwylir i'r Athro Donaldson ddatblygu gweledigaeth glir, gydlynol ar gyfer trefniadau asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4, gan ei chysylltu'n uniongyrchol â'n system gymwysterau newydd.

Gofynnir i unigolion neu grwpiau gwblhau holiadur fel rhan o'r broses ac fe fydd yr ymatebion yn ffurfio rhan bwysig o sail tystiolaeth argymhellion yr Athro Donaldson ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru. Gofynnir am ymateb i'r holiadur erbyn 30 Mehefin 2014.

Ymatebodd Aelodau CYSAG i'r holiadur fel a ganlyn:

1. Ar wahân i gymwysterau, beth yw'r tri pheth mwyaf pwysig y dylai pobl ifanc eu cael o ganlyniad i'w hamser yn yr ysgol?

    - Meithrin agweddau cadarnhaol tuag at eraill
    - Cael ystod o brofiadau gwahanol yn enwedig ym maes crefydd
    - Profiad o fod mewn gwasanaethau arbennig mewn adeilad ysbrydol
    - Cerrig milltir bywyd a'r seremonïau mewn bywyd megis priodas, bedydd
    - Parch tuag at gyd-ddyn a'r amgylchfyd

2. Ydych chi'n credu y bydd y pethau hyn yn parhau i fod yn bwysig ymhen deng mlynedd?

    Bydd

3. Beth yw'r tri pheth gorau am addysg yng Nghymru?

    - Gwneud cystal yng Nghymru o ystyried nad yw'r gyllideb cymaint y pen
    - Adlewyrchu ar ar hunaniaeth grefyddol a chenedlaethol drwy'r cwricwlwm
    - Llwyddiant addysg grefyddol mewn arholiadau TGAU

4.Beth yw'r tri phrif beth sydd angen eu newid i wella addysg yng Nghymru?

- Colli golwg ar faterion sylfaenol – gwaith datblygiadol yn dioddef
- Bod angen cydbwysedd – disgyblion yn gorfod ymdrin â phob dim megis dyfodol y byd

5. Faint o ryddid ddylai ysgolion ei gael i benderfynu ar yr hyn y dylen nhw fod yn ei addysgu?

    - Dylid cael cydbwysedd o fewn fframwaith
    - Maes mor eang – anodd cael athrawon i ddysgu pob dim
    - Pryderu am golli athrawon Addysg Grefyddol – anodd denu athrawon i ysgolion a'r ffaith bod niferoedd disgyblion yn gostwng ac o'r herwydd diffyg arian digonol i gynnal grwpiau bach o ddisgyblion

6. A oes unrhyw bynciau y dylid eu hychwanegu at y cwricwlwm neu eu tynnu oddi arno?

    Na

7. Ydych chi'n teimlo bod y cydbwysedd rhwng asesu ac addysgu/dysgu yn iawn ar hyn o bryd mewn ysgolion?

- Pob ysgol yn cymryd cyfrifoldeb dros asesu ei hun yng CA3 yn unol â threfn sydd yn yr ysgol - pwnc addysg grefyddol yn cael ei gymharu gyda'r dyniaethau oherwydd nad oes chwarteli i'r pwnc)
- Asesiad yn rhoi statws

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Arweinydd Sustem ymateb i'r holiadur ar ran CYSAG Gwynedd fel amlinellir uchod.**

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2014 fel rhai cywir.

### 6.1 Eitem 8 – Adroddiad Blynyddol Gwynedd 2012/13

(a) Atgoffwyd y Pwyllgor o'r penderfyniad yng nghyfarfod diwethaf CYSAG i sefydlu cynllun gweithredu syml er mwyn grymuso trefn o hunan arfarnu CYSAG fel corff sy'n rheoli Addysg Grefyddol. I'r perwyl hwn, lluniwyd cynllun gan Miss Bethan James a bu iddi grynhoi'r camau gweithredu ar gyfer y prif benawdau isod:

(i) Datblygu arweinyddiaeth dda mewn Addysg Grefyddol
(ii) Cau'r bwlch rhwng bechgyn a merched yng nghanlyniadau TGAU
(iii) Cefnogi athrawon a manteisio ar eu harbenigedd
(iv) Hyrwyddo addoli ar y cyd

(b) Nododd y Cadeirydd yr angen i ddiffinio'n glir beth yw rôlau a chyfrifoldebau Miss Bethan James, Arweinydd Sustem GwE a Mr Ken Robinson, Clerc presennol CYSAG o gofio ei fod yn ymddeol o'i swydd fel Swyddog Cynorthwyol Addysg yn ystod yr haf eleni.

(c) Ychwanegodd Aelod bod pwyllgor CYSAG yn gyfrifoldeb statudol yr awdurdod ac felly yn gyfrifol am ddarparu Clerc. Roedd yn ymwybodol bod llythyr wedi ei anfon gan Gadeirydd Cyngor Eglwysi Cymru i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn, ymysg materion eraill, am arweiniad ynglŷn â chefnogaeth i CYSAGau ac ysgolion.

**Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Cadeirydd ac Arweinydd Sustem GwE ynghyd ag olynydd i Mr Ken Robinson i gwrdd ym mis Medi i drafod a pharatoi rhaglen waith i CYSAG am y flwyddyn.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu sicrhau cynnwys y Cynllun Gweithredu ar bob rhaglen CYSAG i'r dyfodol.**

## 6. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

Tywysodd Clerc CYSAG yr Aelodau drwy'r hunan arfarniadau isod:

(i) **Ysgol Brithdir, Dolgellau**

Nodwyd bod cynnydd da mewn nifer o faterion o safbwynt deilliannau mewn Addysg Grefyddol gan gynnwys sesiynau amser cylch a rhannu profiadau. Cyfeiriwyd at gwestiwn allweddol 2 sy'n ymwneud â pha mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol gan

nodi bod yr ysgol yn gwneud defnydd helaeth o TGCh ac yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd. Nodwyd bod arweiniad clir o safbwynt addoli ar y cyd gyda'r Gweinidog yn ymweld â'r ysgol yn fisol i gymryd gwasanaethau.

(ii) **Ysgol Tanycastell, Harlech**

Nodwyd bod y deilliannau yn dda gyda'r cynllunio'n bwrpasol a heriol ac yn drawsgwricwlaidd. O safbwynt cwestiwn allweddol 2 noda'r adroddiad bod y plant yn dod i wybod am dair crefydd wahanol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Nodwyd bod y ddarpariaeth addoli ar y cyd yn dda gyda gwirfoddolwyr o Eglwys St. Tanwg yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd.

(iii) **Ysgol Pont y Gof, Botwnnog**

Braf ydoedd gweld bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gallu siarad am eu teimladau yn y blynyddoedd cynnar ac yn datblygu'r gallu i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen. Gwelir o'r adroddiad bod cynlluniau manwl gan sicrhau dilyniant a datblygiad o safbwynt cwestiwn allweddol 2. Mae darpariaeth addoli ar y cyd yn dda gyda'r plant yn cael cyfle yn yr addoliad i ddatblygu sawl sgil.

(iv) **Ysgol Tregarth**

Tynnwyd sylw bod fformat hunan arfarniad yr ysgol uchod yn wahanol oherwydd bod yr ysgol o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac wedi ymhelaethu ar gyd-destun yr ysgol, gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol. Noda'r adroddiad bod y ddarpariaeth yn dda. Derbyniwyd adroddiad ychwanegol yn dilyn arolwg ym mis Mawrth gan y Parchedig Ganon Robert Townsend a oedd yn nodi bod yr ysgol wedi cyflawni yn unol â gofynion statudol addoli ar y cyd. Nodwyd ymhellach bod rhagolygon ar gyfer gwella yn ardderchog.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol, anfon llythyr at yr ysgolion uchod yn eu llongyfarch am eu llwyddiant a nodi gwerthfawrogiad CYSAG o'r ymdrechion a wneir gan yr ysgolion i gyrraedd y graddau.**

## 7. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

### (a) Cofnodion cyfarfod diwethaf

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2014 yng Nghaerffili.

Yn deillio o'r cofnodion:

(a) cyfeiriodd Mr Rheinallt Thomas at gyflwyniad diddorol iawn gan Mr Michael Strange ar Re:Quest gan dynnu sylw at y cynnig bod adnoddau am ddim i'w rhannu gydag athrawon yn eu hardal a bod adnoddau ar-lein newydd ar gael ar y wefan sydd yn cael ei gefnogi gan "Youth for Christ".

(b) derbyniwyd diweddariad gan Miss Bethan James o gyflwyniad Phil Lord ynglyn â Marc Ansawdd Addysg Grefyddol / REQM a bod cais i ysgolion gofrestru i gael eu hachredu am achrediad Marc Ansawdd. Derbyniwyd caniatâd i gyfieithu'r meini prawf llwyddiant i'r Gymraeg ac i berchnogi'r Adran sydd yn ymwneud â Chymru fel bo'r

meini prawf yn adlewyrchu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol. Anogir athrawon i edrych ar wefan REQM ar gyfer yr arweiniad a chanllawiau defnyddiol iawn i unrhyw Adran. Ar hyn o bryd mae prinder achredwyr drwy gyfrwng y Gymraeg ac y byddai'n braf pe byddai athro / athrawes o Wynedd yn cael ei achredu.

(c) bod newyddion da i awdurdodau yn y ffaith na fyddir yn gorfod talu am y cylchgrawn "Newyddion Addysg Grefyddol" gan fod Prifysgol Bangor a Choleg y Drindod Dewi Sant yn cyfarfod â'r gost a bellach mae'r wefan yn agored i unrhyw un gael mynediad heb daliad a'r angen am gyfrinair.

(ch) Nodwyd bod cyfres o 6 llyfr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi eu cynhyrchu gan Goleg y Drindod Dewi Sant. Yn ogystal bod Gill Vaisey yn parhau i gyhoeddio straeon "Puddles". Fodd bynnag nid oedd y fersiwn Gymraeg Pwllyn y Gath wedi gwerthu'n dda ac o'r herwydd ni fyddai'r awdur Gill Vaisey yn cynhyrchu mwy ohonynt.

(d) Nodwyd bod Mr Wyn Hobson, Cyfieithydd CYSAGau Cymru wedi ymddeol a phenodwyd Mr Garmon Davies i'w olynu.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(b) Enwebiadau i Bwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru**

Cyflwynwyd enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith gan nodi bod dwy sedd ar gael.

**Penderfynwyd: Gofyn i gynrychiolwyr CYSAG Gwynedd bleidleisio i'r ddau enw canlynol yng nghyfarfod y Gymdeithas sydd i'w gynnal ar 2 Gorffennaf 2014 yn Llandrindod :**

**(i) Mr Wyn Meredith**
**(ii) Ms Vicky Thomas**

## 8. YMDDEOLIAD

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i Mr Ken Robinson, Clerc CYSAG, am ei gefnogaeth a'i gyfraniad clodwiw a gwerthfawr i waith CYSAG dros y blynyddoedd diwethaf. Dymunwyd y gorau iddo yn ei ymddeoliad o'i swydd fel Swyddog Cynorthwyol Addysg ddiwedd yr haf.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3.25 pm

**CADEIRYDD**

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Gwynedd
# Medi 2013 – Awst 2014

Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
Dewi Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2012-13
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Cynghorydd E. Selwyn Griffiths
Cadeirydd CYSAG Gwynedd, 2013/2014

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyd at Fawrth 2013, hyrwyddwyd y ddogfen a deunyddiau enghreifftiol gan ymgynghorydd dyniaethau CYNNAL yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac mewn ymweliadau i ysgolion. Daeth y gefnogaeth gwricwlaidd i ben ym mis Mawrth 2013.

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd'.

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chynghori'r awdurdodau addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Gwynedd (13.06.13) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (23.10.13) yn dangos bod:

- llawer o aelodau CYSAG Gwynedd yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- tua hanner o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod
- mwyafrif o aelodau CYSAG Gwynedd yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol y Maes Llafur Cytûn ac yn barod i ddarllen a pharatoi dadansoddiad o sampl o hunan arfarniadau ysgol. Derbyniwyd enwau dau ohonynt;

- tua hanner o'r aelodau yn barod i ymweld ag ysgol er mwyn trafod hunan arfarniad yr ysgol gyda'r cydlynydd addysg grefyddol neu bennaeth adran a derbyniwyd enwau dau ohonynt.

### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Gwynedd (9 Chwefror 2011) penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi taflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Gwynedd, penaethiaid ysgolion Gwynedd ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Gwynedd, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Gwynedd, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Mae Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion.

Derbyniwyd 9 adroddiad hunan arfarniad gan benaethiaid ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn: Baladeulyn, Brithdir, Cefn Coch, Dolbadarn, O.M.Edwards, Edmwnd Prys, Pont y Gof, Tanycastell, Tregarth. Derbyniwyd 3 adroddiad hunan arfarniad gan benaethiaid ysgolion uwchradd: Ysgol Ardudwy, Ysgol Brynrefail, Ysgol Dyffryn Ogwen.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o'r fframwaith arolygu newydd. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | 1 | 8 | | | | 9 | | | 2 | 7 | | |
| **Uwchradd** | 1 | 2 | | | 1 | 2 | | | | 1 | 1 | |
| **Cyfanswm** | 2 | 10 | | | 1 | 11 | | | 2 | 8 | 1 | |

Roedd llawer o'r adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr ychydig o enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy. Fodd bynnag, prin oedd y cyfeiriadau at ofynion y Maes Llafur Cytûn mewn ychydig o adroddiadau.

**Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion uwchradd yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- y cynnydd da a welwyd yn safonau addysg grefyddol yng Nghyfnod Allweddol 3, (Ardudwy, Brynrefail, Dyffryn Ogwen);
- perfformiad rhagorol disgyblion CA4 (Dyffryn Ogwen);
- perfformiad da disgyblion yn eu harholiad Uwch Gyfrannol, (Brynrefail);

Roedd yr ysgolion cynradd yn ymfalchïo mewn agweddau megis:

- dealltwriaeth dda'r disgyblion o bwysigrwydd addoli, mannau ac arteffactau arbennig i bobl o wahanol grefyddau, (O M Edwards);
- dealltwriaeth dda rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen wrth ymateb i gwestiynau megis, *'Pam for Iesu Grist wedi marw?'* a *'Beth sy'n gwneud ffrind da?'* (Dolbadarn), *'Ydy Iesu Grist yn mwynhau ei barti pen-blwydd?' 'Ydw i'n diolch digon?'* (Cefn Coch) ;
- bod rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gallu cymharu addoliad ac adeiladau crefyddol y pentref, (Dolbadarn);
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yng ngwaelod CA2 yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol, (Edmwnd Prys);
- gwybodaeth a dealltwriaeth dda rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 wrth ymateb i gwestiynau megis, *'Pam fod pobl yn mynd ar bererindod?', 'Beth yw Cristion?', 'Beth yw heddwch? Sut a pham y mae gwahanol grefyddau'n diolch?'*(Dolbadarn), *'Pam bod rhai prydiau bwyd mor bwysig i gredinwyr? Beth sy'n creu hapusrwydd?' 'Sut a pham mae credinwyr yn gofalu am eraill?' 'Sut mae bod yn dda?'* (Cefn Coch);
- gallu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i siarad am eu profiadau eu hunain, i gynnig rhai atebion posibl i gwestiynau crefyddol a/neu sylfaenol ac i gyfiawnhau eu syniadau, (Cefn Coch);
- gallu'r rhan fwyaf o ddysgwyr i ddisgrifio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol, ac esbonio pam bod credinwyr yn credu ac yn gweithredu fel y gwnânt, (Cefn Coch);
- gallu ychydig o ddisgyblion CA2 i wneud cysylltiadau rhwng gwahanol grefyddau, (Cefn Coch);
- defnydd da rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 o eirfa grefyddol addas, (Cefn Coch, Pont y Gof)
- sgiliau da y rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 wrth iddynt holi cwestiynau effeithiol, defnyddio ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol, egluro a mynegi barn, (Dolbadarn);
- ansawdd da'r ysgrifennu estynedig wrth ymateb i gwestiynau crefyddol, (Dolbadarn).
- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 yn cyflawni Lefel 4 neu 5 ym maes Addysg Grefyddol, (Brithdir)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd yr ysgolion yn nodi'r angen **i:**

- cynyddu'r nifer o fechgyn sy'n cyflawni L7+ mewn addysg grefyddol (Ardudwy) neu wella llythrennedd y bechgyn er mwyn cau'r bwlch rhwng bechgyn a merched (Dyffryn Ogwen);
- cynyddu'r nifer o radau A*/A yn y canlyniadau TGAU o fewn y pwnc (Dyffryn Ogwen);
- meithrin sgiliau meddwl ymestynnol y disgyblion, (Dolbadarn)
- sicrhau bod disgyblion yn gallu adnabod meini prawf llwyddiant sy'n eu cynorthwyo i wella'u gwaith mewn addysg grefyddol, (Dolbadarn);
- sicrhau bod cyflawniad dysgwyr yr haen uwch drwy'r ysgol yn fesuradwy yn erbyn gofynion y deilliannau/lefelau uwch ar gyfer addysg grefyddol, (Cefn Coch, Pont y Gof);

- datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, (Edmwnd Prys, Pont y Gof);

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- strategaethau dysgu ac addysg amrywiol a heriol ar waith (Ardudwy):
- ansawdd da (Ardudwy, Brynrefail, O M Edwards) a rhagorol (Dyffryn Ogwen) yr addysgu;
- gwybodaeth bynciol dda a chyfoes yr athrawon addysg grefyddol, (Brynrefail);
- amcanion a nodau dysgu clir a chyraeddadwy mewn addysg grefyddol, (Dyffryn Ogwen);
- tasgau disgybl-ganolog sydd yn sicrhau bod disgyblion yn gallu perchnogi eu dysgu ac ymfalchio yn eu gwaith, (Dyffryn Ogwen);
- sbardunau diddorol a sesiynau cloi priodol sy'n caniatáu i ddisgyblion myfyrio ar eu dysgu (Dyffryn Ogwen);
- y defnydd cyson o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a metawybyddiaeth mewn gwersi addysg grefyddol sy'n gwneud y disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol, (Cefn Coch, Dyffryn Ogwen);
- y gefnogaeth a roddir i ddisgyblion ADY mewn gwersi addysg grefyddol, (Dyffryn Ogwen);
- cynlluniau gwaith pwrpasol a da sy'n dilyn trywydd y plentyn (Dolbadarn) ac yn adeiladu ar fedrau disgyblion, (Dolbadarn, Edmwnd Prys);
- cynlluniau sy'n rhoi cyfle i osod 'cwestiwn mawr' ar ddechrau tymor ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau yn ysgogi ymchwilio a chyflwyniadau annibynnol, (Brithdir Cefn Coch, Edmwnd Prys, Pont y Gof);
- yr ystod ragorol o brofiadau a gynigir i ddisgyblion: ymweliadau ag addoldai lleol, ymwelwyr, y 'pererindod' ar dir yr ysgol, (Dolbadarn);
- adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen, (Edmwnd Prys, Pont y Gof);
- y cyfleoedd i astudio tair crefydd wahanol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd: Cristnogaeth, Hindŵaeth ac Islam, (Tanycastell);
- y Gymuned Dysgu Proffesiynol rhwng ysgolion Tregarth a Bodfeurig sydd wedi sicrhau dilyniant a pharhad effeithiol yn narpariaeth addysg grefyddol a Christnogol yr ysgol, (Tregarth);

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn awyddus i:

- ddatblygu mwy o weithgareddau heriol er mwyn ymestyn dysgwyr CA3 a chynyddu'r nifer o lefelau uwch ar ddiwedd CA3, (Brynrefail, Dyffryn Ogwen) gan roi sylw i'r dysgwyr 'galluog a thalentog', (Dyffryn Ogwen);
- gau'r bwlch rhwng y bechgyn a'r merched yn eu hasesiadau ar ddiwedd CA3, (Brynrefail);
- adnabod cyfleoedd yn y cynllun gwaith i allu gosod gwaith cartref penodol i sicrhau cysondeb, (Brynrefail);
- gynyddu'r ganran sy'n derbyn A*/A, A*-C yn eu harholiadau TGAU.

- sicrhau bod dilyniant yn y gwersi addysg grefyddol (O M Edwards) a'r tasgau a gynllunir (Dolbadarn);
- sicrhau bod y tasgau a ddarperir gogyfer a dysgwyr yr haen uwch drwy'r ysgol yn taro llinynnau pendant o fewn gofynion y deilliannau/lefelau ar gyfer addysg grefyddol, (Cefn Coch, Brithdir, Edmwnd Prys, Pont y Gof);
- symleiddio ieithwedd lefelau addysg grefyddol i ddysgwyr CA2 fel y gallant hunan asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion, (Cefn Coch);
- ddatblygu portffolio o samplau gwaith penodol o dan 'llinynnau' addysg grefyddol;
- gymhwyso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol i'r cynlluniau gwaith (Ardudwy, Dyffryn Ogwen, Brithdir);
- ehangu'r gweithgareddau darllen o fewn themâu addysg grefyddol, (Dolbadarn);
- sicrhau bod darnau ysgrifenedig estynedig yn cael eu cyflwyno yn dymhorol (Brithdir, Edmwnd Prys);

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Roedd llawer o'r ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- cyfraniad disgyblion wrth drefnu a pharatoi sesiynau addoli ar y cyd, (Ardudwy, Tregarth) ac wrth gyfrannu yn ddyddiol o'r llwyfan, (Brynrefail);
- cyfraniad y disgyblion i'r sesiynau addoli ar y cyd wrth iddynt fyfyrio, ymateb, darllen chwarae rôl, gweddïo a chanu emynau, (Baladeulyn, Cefn Coch, Edmwnd Prys, Pont y Gof);
- sesiynau addoli ar y cyd sy'n canolbwyntio ar faterion cyfredol ac yn atgyfnerthu negeseuon moesol (Dyffryn Ogwen);
- amserlen cyd-addoli strwythuredig mewn ysgol eglwysig oedd wedi arwain at ddatblygu'r ymdeimlad bod y sesiwn yn gyfnod arbennig o ymdawelu a myfyrio, (Tregarth);
- y ddarpariaeth dda ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion mewn gwersi addysg grefyddol, dyniaethau ac iaith, (Dyffryn Ogwen);
- y trafodaethau o themâu crefyddol sy'n meithrin ysbryd cymunedol ac yn hyrwyddo ethos positif a gofalgar y plant a'i gilydd, (O M Edwards);
- y cydweithio rhagorol rhwng yr ysgol ac arweinwyr crefyddol lleol, (O M Edwards);
- naws ysbrydol arbennig y sesiynau addoli ar y cyd a'r ddarpariaeth dda iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion, (Cefn Coch, Dolbadarn).

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- monitro effeithiolrwydd addoli ar y cyd yn ystod adegau cofrestru, (Ardudwy);
- cynyddu'r nifer o unigolion gwadd i gymryd y gwasanaeth, (Ardudwy, Baladeulyn);
- efelychu'r arferion da ymhob gwasanaeth (Pont y Gof);
- sicrhau bod y sesiynau addoli ar y cyd yn yr adran Cyfnod Sylfaen (Edmwnd Prys, Pont y Gof) a'r ysgol gyfan (Brynrefail) yn cydymffurfio a'r gofynion statudol;
- datblygu ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur, (Edmwnd Prys, Pont y Gof, Tregarth);
- datblygu ymhellach gyfranogiad dysgwyr, (Tregarth);

- sicrhau bod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag addoli ar y cyd, (Edmwnd Prys, Pont y Gof);
- sicrhau bod mwy o gyswllt rhwng yr ysgol a'r Eglwys a chapeli cyfagos.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Gwella ansawdd hunan arfarniadau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd;
- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc;
- Llunio camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael âg ysgolion sydd heb gyflwyno adroddiad CYSAG i sylw CYSAG;
- Cytuno ar amserlen a threfn hunan arfarnu fel bod pob ysgol yn ymwybodol o'r disgwyliadau;
- Hwyluso cyfleoedd i athrawon i rannu arferion da ym maes addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, a
- Gwahodd un cydlynydd addysg grefyddol i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod dilynol o GYSAG;

### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion ac yn defnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo:

- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

| **Blwyddyn** | **Ysgolion** | **Disgyblion** | | **%L5+** | | **%L6+** | | **%L7+** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C* | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C | Gwynedd | M+G+C |
| 2013 | 5(5)+5(14)+1(7) | 461 | 1,241 | 93.7 | ? | 68.5% | ? | 24.9% | ? |
| 2012° | 5(5)+13(14)+4(7) | 1260 | 2,568 | 87.2 | 82.9 | 51.4 | 43.8 | 16.4 | 12.7 |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 1145 | 1,767 | 82.0 | | 40.9 | | 12.6 | |

* Erbyn diwedd tymor yr Hydref 2013 roedd 5 allan o 14 ysgol yng Ngwynedd wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 5 allan o 5 ysgol uwchradd ym Môn ac 1 allan o 7 ysgol yng Nghonwy. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol.

° Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad

- Cyflwynodd 5 o ysgolion uwchradd Gwynedd data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3: Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol y Moelwyn, Ysgol Tryfan, Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Glan y Môr.
- Nid yw CYNNAL wedi derbyn data perfformiad CA3 oddi wrth: Ysgol Botwnnog, Ysgol Brynrefail, Ysgol Eifionydd, Ysgol y Gader, Ysgol Uwchradd Tywyn, Ysgol y Berwyn, Ysgol Ardudwy, Ysgol Friars, Ysgol Tryfan.
- Aseswyd 675 o ddisgyblion CA3 yn Haf 2012.
- Cyflawnodd 93.7% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynnydd o 5.5% ers 2012. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 87.5% i 100%;
- Cyflawnodd 68.5% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol, syn gynnydd o 17.1% ers 2012. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 44.8% i 82.3%.
- Cyflawnodd 24.9% o ddisgyblion CA3 Gwynedd Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol, sy'n gynnydd o 8.5% ers 2012. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 18.2% i 31.1%
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion mewn 3 ysgol.
- Roedd 8 disgybl yng Ngwynedd yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012.

| | Nifer o ysgolion | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2013** | 12 | 126 | 262 | 388 | 38.9 | 46.6 | 44.1 | 79.4 | 84.7 | 83.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 45 | 47 | 46 |
| **2012** | 10 | 113 | 190 | 303 | 37.2 | 44.7 | 41.9 | 76.1 | 83.2 | 80.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 44 | 46 | 45 |
| **2011** | 12 | 128 | 266 | 394 | 24.2 | 41.7 | 36.0 | 62.5 | 75.9 | 71.6 | 99.2 | 96.2 | 97.2 | 40 | 43 | 42 |
| **2010** | | 42 | 97 | 139 | 14.3 | 36.1 | 29.5 | 61.9 | 90.7 | 82.0 | 92.9 | 99.0 | 97.1 | 36 | 42 | 40 |

Nid yw sgôr cyfartalog y disgyblion yn eu pynciau eraill ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau Addysg Grefyddol yn gallu cael mynediad i ddata sy'n dangos sut mae'r ymgeiswyr wedi perfformio mewn pynciau eraill. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r wybodaeth hyn yn eu hunan arfarniad.

**Canlyniadau da iawn**

- 388 ymgeisydd o 12 ysgol yng Ngwynedd. Sgôr cyfartalog y pwnc yw 46. Nid oes ymgeiswyr o Ysgol Uwchradd Tywyn. Mae ymgeiswyr Ysgol Ardudwy yn teithio i Ysgol Eifionydd er mwyn dilyn cwrs TGAU.
- Mae'r nifer o ddisgyblion mewn dosbarthiadau yn amrywio o 11 disgybl mewn un ysgol i 167 mewn ysgol arall.

- 44.1% o'r ymgeiswyr yn derbyn graddau A*/A (rhagoriaeth). Mae'r ganran wedi cynyddu'n gyson ers 2010.
- 83% o ymgeiswyr yn ennill cymhwyster level 2 (A*- C) ac mae pob ymgeisydd wedi derbyn cymhwyster Lefel 1. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod safonau wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf.
- Mae mwy o ferched na bechgyn yn dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn TGAU (B 126 : G 262).
- Mae canlyniadau'r merched yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 47 mewn cymhariaeth a sgôr cyfartalog y bechgyn o 45. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU. Fodd bynnag mae canlyniadau L2 eleni yn awgrymu bod y bwlch rhwng safonau'r bechgyn a'r merched wedi cau am y bedwaredd flwyddyn o'r bron. Mae'r bwlch rhwng y ganran o fechgyn a genethod sy'n cyflawni Rhagoriaeth yn 7.7%, sy'n gyson a'r bwlch yn 2012 (7.5%).
- Mae'r ganran o fechgyn a merched a dderbyniodd cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 wedi cynyddu'n raddol ers 2011.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**
Mae'r data yn cynrychioli disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion hyn wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau am y cwrs byr TGAU yn hytrach na pharhau gyda'u hastudiaethau am ail flwyddyn.

| | Nifer o ysgolion | Nifer o ymgeiswyr | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| **2013** | 9 | 145 | 253 | 398 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 71.0 | 79.1 | 76.1 | 97.2 | 97.6 | 97.5 | 21 | 23 | 22 |
| **2012** | 3 | 17 | 38 | 55 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 58.8 | 84.2 | 76.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 22 | 20 |
| **2011** | 6 | 121 | 134 | 255 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 46.3 | 67.2 | 57.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 18 | 21 | 19 |
| **2010** | | 223 | 323 | 546 | 0.9 | 3.7 | 2.6 | 62.8 | 82.4 | 74.4 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 22 | 25 | 23 |

Nid yw sgôr cyfartalog mewn pynciau eraill yr ymgeiswyr ar gael i'r ymgynghorydd dyniaethau. O ganlyniad mae'n amhriodol i gymharu perfformiadau ysgolion. Fodd bynnag, mae adrannau AG yn gallu cael mynediad i'r data hyn. Fe'u cynghorir i ddefnyddio'r data hyn yn eu hunan arfarniadau adran.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrawon addysg grefyddol er mwyn rhannu arferion da.

### 2.3.3 Adroddiadau Arolygiadau ESTYN

Arolygwyd 18 o ysgolion Gwynedd gan ESTYN yn ystod y flwyddyn: Ysgolion uwchradd Y Berwyn, Botwnnog, Y Moelwyn a Tryfan, ysgolion cynradd Y Groeslon, Tregarth, Friog, Dyffryn Dulas, Bro Lleu, Bronyfoel, Ganllwyd, Rhostryfan, Beuno Sant, Llanbedrog, Y Gorlan, Edern, Talsarnau a Chrud y Werin . Nid yw'r adroddiadau yn arfarnu safonau addysg grefyddol. Nid oedd cyfeiriadau at ysgolion oedd yn methu darparu addoli ar y cyd statudol.

| Nifer o ysgolion | Cyfeiriad at AG | Cyfeiriad at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol | | | | Cyfeiriad at ansawdd yr addoli ar y cyd | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| 18 | 2 | 1 | 13 | 2 | | 5 | 7 | 2 | |

Mae adroddiadau yn nodi bod yr ysgolion yn:

- darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion ysbrydol a moesol (Tryfan, Y Moelwyn);
- darparu'n effeithiol iawn ar gyfer datblygiad ysbrydol mewn gwersi addysg grefyddol a chyfnodau boreol, yn enwedig cyfraniadau'r dysgwyr, (Y Berwyn);
- cydlynu datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn dda, ac yn ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo gwerthoedd uchel yn helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac ar eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau, (Bro Lleu, Llanbedrog, Rhostryfan);
- darparu sesiynau addoli ar y cyd sy'n arwyddocaol o ran creu awyrgylch gofalgar ac ysbrydol, (Rhostryfan);
- darparu sesiynau addoli ar y cyd ysgogol sy'n cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion, (Llanbedrog, Edern, Talsarnau);
- darparu sesiynau addoli ar y cyd sy'n sicrhau bod disgyblion yn elwa'n fawr o fod yn chwarae rhan arweiniol, (Crud y Werin).

Mae CYSAG Gwynedd wedi argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymelliad CYSAG i Gyngor Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o ganfyddiadau ESTYN ac yn gweithredu ar y canllawiau a'r argymhellion.

## 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYSAGau Gwynedd.

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad.

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Gwynedd yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
    - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
    - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Gwynedd yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Gwynedd yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:
    - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.
    - Gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol. Mae'r Awdurdod yn dosbarthu'r adnoddau misol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig yng Ngwynedd.

Gan fod y gefnogaeth ymgynghorol i addysg grefyddol wedi gorffen ym mis Mawrth 2013 mae aelodau CYSAGau Gwynedd a Môn wedi ystyried dulliau amgen o gyflawni eu dyletswyddau i fonitro safonau a chynghori'r awdurdod addysg. Dosbarthwyd holiadur i aelodau CYSAG Gwynedd (13.06.13) ac ymatebodd deg aelod. Mae'r dadansoddiad (23.10.13) yn dangos bod:

- llawer o aelodau CYSAG Gwynedd yn teimlo'n hyderus yn eu dealltwriaeth o ofynion statudol addoli ar y cyd mewn ysgolion;
- tua hanner o'r aelodau yn barod i ymweld â sesiwn/sesiynau addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion pob tymor. Derbyniwyd enwau 4 aelod

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Gwynedd**

- Sicrhau bod ysgolion yn cydyffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Annog ysgolion i wahodd aelodau o CYSAG Gwynedd i fynychu sesiynau addoli ar y cyd yn ysgolion y sir.

## ADRAN 3: ATODIADAU

### 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,
- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

*Mae'r Pwyllgor Addysg wedi cadw'i  hawl i enwebu Cadeirydd ar gyfer CYSAG.*

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Gwynedd 2013-14

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Mr Wyn Miles Meredith |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Ruth Davies |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Parch Deian Evans |
| Yr Eglwys yng Nghymru | Parch Robert Townsend |
| Undeb yr Annibynwyr | Mr Cynrig Hughes |
| Yr Eglwys Babyddol | Mrs Eirian Bradley Roberts |

**Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Mrs Alwen Watkin (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mr Noel Dyer (Ysgol Glan y Môr) |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | Mrs Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd) |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Mr Euron Hughes |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Mrs Lisabeth Roberts |
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) | *gwag* |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Huw Edwards | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cadeirydd) | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Gareth Thomas | Plaid Cymru |
| Cynghorydd Tom Ellis | Annibynnol |
| Cynghorydd Jean Forsyth | Annibynnol |
| Cynghorydd Louise Hughes | Llais Gwynedd |
| *Sedd wag* | Llais Gwynedd |

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

Mr Rheinallt Thomas
Mr Gwyn Rhydderch
Parch Aled Davies

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Dewi Jones | Pennaeth Adran Addysg Gwynedd |
| Mr Ken Robinson | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Miss Bethan James | Arweinydd System GwE |
| Mrs Glynda O'Brien | Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2013-14

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2012 – 2013, cyfarfu CYSAG Gwynedd ar dri achlysur:

23 Hydref 2013
19 Chwefror 2014
25 Mehefin 2013

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 23 Hydref 2013**

- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Gwynedd 2013/2014
- Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen, (cyflwyniad gan Ann Williams, pennaeth Ysgol Llanelltyd)
- Safonau addysg grefyddol
- Hunan arfarniadau ysgolion: Ardudwy, Dyffryn Ogwen, O M Edwards, Dolbadarn, Cefn Coch, Baladeulyn.
- Adroddiad thematig ESTYN, 'Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd'
- Arweinyddiaeth a Chefnogaeth CYSAG (dadansoddiad o holiadur)
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, Gwynedd ar 19 Mehefin 2013

**b) Cyfarfod 19 Chwefror 2014**

- Hunan arfarniadau ysgolion: Edmwnd Prys, Brynrefail
- Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ac adolygiad o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru.
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Gwynedd (terfynol) 2012-13
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10 Hydref 2013. .

**c) Cyfarfod 25 Mehefin 2014**

- Hunan arfarniadau ysgolion: Brithdir, Tanycastell, Pont y Gof, Tregarth
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerffili ar 27 Mawrth 2014.

**3.3.1** Mae CYSAG Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Mr Wyn Miles Meredith

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau
- Mr Rheinallt Thomas

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Mr Dewi Jones, Pennaeth Adran
Mr Ken Robinson , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Arweinydd System, GwE
Mrs Glynda O'Brien, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Gwynedd

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd y Cyngor
- Cymdeithas CYSAGau Cymru
- Ysgolion Gwynedd

**Darperir copi papur i:**

- Aelodau CYSAG Gwynedd

## 3.4 Templed CYSAG Gwynedd ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Gwynedd** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Gwynedd** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Gwynedd** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Gwynedd** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

| **Manylion cyswllt:** | |
|---|---|
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mr Ken Robinson** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. | | | | | | | |
| • **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol: Canllawiau CA2 a CA3 a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (Llywodraeth Cymru), Adroddiad Prif Safonwr CA3 CBAC (2012), Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed, | | | | | | | |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol | | | | | | | |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | **Ydy** | | **Nac ydy** | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).<br>'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: (Pennaeth)

Dyddiad:

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae’r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma’r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae’r symbol Σ yn dangos cyfanswm o’r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ | Dyma’r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae’r symbol Σ yn dangos cyfanswm o’r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B \| G \| Σ | Mae’r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau’r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae’r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae’r symbol Σ yn dangos cyfanswm o’r ymgeiswyr |
| %L1<br>B \| G \| Σ | Mae’r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau’r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae’r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae’r symbol Σ yn dangos cyfanswm o’r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau’r disgyblion yn cael ei rannu (⍰) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae’r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a’r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae’r symbol Σ yn cynrychioli’r cyfanswm o’r ymgeiswyr |

**Beth mae’r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B \| G \| Σ | Dyma’r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae’r symbol Σ yn dangos cyfanswm o’r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B \| G \| Σ<br>% L2<br>B \| G \| Σ<br>% L1<br>B \| G \| Σ | Mae’r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau’r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i’r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B \| G \| Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau’r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae’r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

**Monitro Haf 2014-Hydref 2014**

Gofynnir i bob ysgol ddarparu adroddiad hunan-arfarnu ar safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar gyfer CYSAG Gwynedd. Mae'r adroddiadau a dderbynnir ynghlwm ynghyd â chrynodeb o'r canfyddiadau yn y tablau isod:

| **Ysgolion Uwchradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

| **Ysgolion Cynradd** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiadau Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| Llanbedrog | √ | Da | Da | Da | √ | 5/14 | Da |
| Crud y Werin | √ | Da | Da | Da | √ | 7/14 | Da |
| Y Gorlan | | | | | √ | 5/14 | Da |
| Edern | √ | Da | Da | Da | √ | 6/14 | Da |
| Talsarnau | √ | Da | Da | Da | √ | 6/14 | Da |
| | | | | | | | |
| Dyffryn Ardudwy | | | | | | 9/14 | |
| Y Garreg | | | | | | 10/14 | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

| **Ysgolion Arbennig** | **Adroddiad HA** | **Canfyddiad Ysgol** | | | **Adroddiad Estyn** | **Dyddiad** | **Canfyddiad Estyn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **CA1** | **CA2** | **Addoli ar y cyd** | | | |
| | | | | | | | |

Yn ystod y cyfnod tymor Haf 2014 mae 5 ysgolion cynradd, 0 ysgol uwchradd ac 0 ysgol arbennig wedi cael eu harolygu gan Estyn. Rhagwelir y bydd 6 ysgol arall yn cael eu harolygu yn ystod y tymor presennol.

Mae'r dyfyniadau a ganlyn wedi'u cymryd o adroddiadau arolygu ac yn cyfeirio at Addysg Grefyddol (annhebygol), addoli ar y cyd, datblygiad moesol ac ysbrydol ond hefyd agweddau eraill megis addysg bersonol, diwylliannol a chymdeithasol.

**Ysgol Llanbedrog (Mai 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol at

ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

**Ysgol Y Gorlan (Mai 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae'r ysgol yn darparu amryw gyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd hefyd i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd gofalu am rai llai ffodus na nhw.

**Ysgol Crud y Werin (Gorffennaf 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus iawn ar draws yr ysgol, gyda'r disgyblion yn elwa'n fawr o fod yn chwarae rhan arweiniol.

**Ysgol Edern (Mehefin 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

**Ysgol Talsarnau (Mehefin 2014)** **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**
Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i ddangos parch at eraill. Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

**Enw'r Ysgol: Ysgol Llanbedrog**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Datblygir gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn yn y plant am gredoau ac arferion Cristnogol a phrif egwyddorion crefyddau eraill drwy ein cynlluniau tymhorol a'n gwersi wythnosol sydd yn cyd-fynd â gofynion y Maes Llafur a'r Fframwaith Sgiliau. Defnyddiwn adnoddau a dulliau cyflwyno a argymhellwyd gan y cyn-ymgynghorydd addysg grefyddol er mwyn cyflwyno'r pwnc yn effeithiol.
- Defnyddir sgiliau meddwl, cyfathrebu a TGCh wrth weithio ar wahanol agweddau o'r pwnc a gwneir defnydd effeithiol a chyson o Asesu ar Gyfer Dysgu i gyfoethogi'r ddarpariaeth.
- Mantesiwn ar ymweliadau gan unigolion arbennigol er mwyn cryfhau cyflwyniadau a dealltwriaeth o wahanol feysydd yn y pwnc e.e o Gymroth Cristnogol, Masnach Deg. Yn ogystal â hyn awn ar ymweliadau addysgol sydd yn cyfoethogi gwaith y dosbarth e.e ymweliad ag eglwysi, cynnal gwasanaethau mewn cartrefi henoed lleol ac ati ac o ganlyniad gall y plant berthnasu yn gadarnach â'r pwnc.
- Mae plant yn datblygu drwy'r ysgol i gyflwyno ymatebion personol ac aeddfed i gwestiynau personol, crefyddol a moesol gan ddangos empathi at eraill.
- Yn y Cyfnod Sylfaen cyflwynir addysg grefyddol drwy gyfrwng straeon, Beiblaidd (e.e Pwllyn) neu Foesol (Cyfres 'pam Tybed?') a defnyddir adnoddau fel straeon a phypedau i ddod â'r gwaith yn fyw a pherthnasol. Mae'r plant yn ymateb yn dda iawn i hyn gan ddatblygu yn gyson i drafod, mynegi barn  ac ailadrodd straon a phrofiadau mewn ffurfiau ysgrifenedig neu weithgareddau llafar.
- Yng Ngyfnod Allweddol 2 cyflwynir 'Cwestiwn Mawr' fel sbardun i gychwyn y gwaith a chaiff y plant gyfleoedd i fod yn rhan o gynllunio gwaith y tymor. Sicrheir cyfleoedd mewn gwersi i fynd ar ôl y trywyddau ymholi drwy ymchwilio, casglu gwybodaeth, creu a dadansoddi holiaduron, edrych ar dystiolaeth weledol ac arteffactau, mynd ar ymweliadau, trafod gyda chyd-ddisgyblion ac ymwelwyr ac ati. Erbyn diwedd yr uned waith maent wedi casglu gwybodaeth berthnasol i allu cynnig eu hateb personol i'r 'Cwestiwn Mawr' Neulltir amser ar ddiwedd y tymor i drafod y 'Cwestiwn Mawr' a gall y mwyafrif llethol o'r plant wenud hyn yn hyderus, effeithiol a sensitif.
- Mae gwaith y plant a thrafodaethau â hwy, yn dangos fod plant, o oedran ifanc iawn,  yn ymwybodol o reolau a bod y rheiny yn amrywio o grefydd i grefydd. Gall y mwyafrif o blant drafod yn naturiol ac eang gan ystyried a pharchu safbwyntiau eraill a'r gwahaniaethau sydd o fewn cymdeithas yn ogystal â mynegi barn eu huanin.Gall rhai plant hŷn esbonio effaith hyn er eu bywydau.
- Cyflwynir ystod o eirfa grefyddol addas yn ystod y gwersi addysg grefyddol a gwelir y plant yn eu mabwysiadu yn rhwydd yn rhan o'u geirfa naturiol er mwyn trafod gwahanol destunau. Maent hefyd yn dod i adnabod mwy-fwy o symbolau crefyddol a deall bod ystyr iddynt.
- O graffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith gwelir tystiolaeth helaeth o wahanol agweddau o'r pwnc gan sicrhau fod y cwricwlwm llawn yn cael sylw ar draws yr ysgol a bod gwybodaeth a sgiliau y plant yn dyfnhau wrth iddynt fynd drwy'r ysgol.
- Rhoddir sylw i agweddau o addysg grefyddol yn drawsgwricwlaidd ac wrth ddilyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd drwy'r ysgol ac mae gwerthoedd fel rhannu, helpu, dangos empathi yn cael bri yn ein Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth ac yn cae eu hybu drwy'r dydd bob dydd, ac mae hyn i'w weld wedi cael effaith bositif ar ymddygiad ac ymagwedd plant. Canmolwyd hyn yn fawr gan Estyn.

**Materion i gael sylw**

- Parhau i ddatblygu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y plant o grefyddau ac arferion crefyddol

| **Rhagorol** | | **Da** | * | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r holl blant (bwlyddyn D-6) yn derbyn gwers addysg grefyddol yn wythnosol yn unol â'r gofynion statudol .
- Cynllunir yn y ddau gyfnod allweddol i sicrhau fod holl ofynion y Maes Llafur yn cael sylw haeddiannol a bod y plant yn cael mynediad i'r cwricwlwm cyfan, wedi ei addasu i oed a gallu. ond byddwn yn ei haddasu i gyd-fynd a digwyddiadau cyfoes o fewn yr ysgol, y gymuned neu'r ardal leol fel bod y plant yn cael cyfle i fyfyrio ac ymateb i'r byd o'u cwmpas a bod y pwnc yn dod yn fyw a pherthnasol, yn unol a dull y Cyfnod Sylfaen o gynllunio.
- Mae gan yr athrawon ymwybyddiaeth dda o ofynion y pwnc, wedi mynychu hyfforddiant a chyd-weithio yn agos gyda'r cyn-ymgynghorydd addysg grefyddol gan ddilyn ei harweiniad arbenigol. O arsylwi ar wersi, mae strwythur a dilyniant canmoladwy i wersi yr ysgol gyfan a chyflwynir gwersi o safon dda.
- Defnyddiwn amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno y pwnc gan gynnwys cyfleon i'r plant ymchwilio eu huanin, casglu gwybodaeth, rhannu syniadau a thrafod, defnyddio dulliau Asesu ar Gyfer Dysgu, gan ddatblygu sgiliau llythrennedd, meddwl a thechnoleg gwybodaeth ar yr un pryd. Cyflwynwn waith y tymor fel cwestiwn mawr ac erbyn diwedd yr uned o waith cawn gyfle i geisio ateb y cwestiwn.
- Caiff y plant ddefnyddio ac archwilio i ystod o dystiolaeth a ffynonellau crefyddol megis straeon, addoldy, artreffactau, gwefannau a gall y mwyafrif yn CA2 gynllunio a meddwl am gwestiynau da i'w gofyn i ddyfnhau eu dysgu.
- Sicrhawn ddigon o gyfleon i'r plant drafod ac ymateb i gwestiynau sydd yn ymwneud â bywyd bob dydd ac mae'r plant yn barod i rannu eu sylwadau a'u barn gan ymateb yn sensitif i'w gilydd.

**Materion i gael sylw**

- Cyflwyno mwy o waith Rhifedd drwy Addysg Grefyddol
- Trefnu mwy o ymweliadau e.e i weld addoldai amrywiol a Choleg y Bala

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

| Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Cynhelir gwasanaeth cyd-addoli dyddiol, ac mae'r athrawon i gyd yn cymeryd cyfrifoldeb dros hyn. Mae gennym amserlen sydd yn sicrhau amrywiaeth o straeon a negeseuon gan gynnwys rhai Cristnogol, moesol a gwybodaeth o'r newyddion. O ganlyniad mae'r plant yn datblygu eu gwybodaeth o straeon Beiblaidd, yn rhannu syniadau am foesoldeb ac yn gallu dangos dealltwriaeth ac empathi tuag at ddigwyddiadau byd-eang.
- Yn y gwasanethau mae cyfleon i'r plant rannu eu syniadau ac ateb cwestiynau, i fyfyrio ac i ganu caneuon crefyddol ac emynau.
- Defnyddiwn gannwyll a cherddoriaeth gefndirol i greu awyrgylch arbennig yn y neuadd ar adeg gwasanaeth ac mae'r plant yn wynebu'r gannwyll. Ar ddiwedd y gwasanaeth byddwn un plentyn yn cael 'anfon y gannwyll' a phawb yn cau llygaid am funud o dawelwch i fyfyrio dros ddigwyddiad neu i feddwl am sefyllfa arbennig e.e rhywun sydd yn wael, digwyddiad yn y newyddion.
- Trefnir i unigolion o wahanol sefydliadau crefyddol ac elusenau ddod i gynnal gwasanaethau; e.e daw ein Ficer lleol yn fisol, Nia o Goleg y Bala, Rachael Trobwynt o leiaf yn dymhorol, ac mae unigolion yn dod i siarad am elusennau fel Marie Curie, Masnach Deg ac ati.
- Ar adegau penodol o'r flwyddyn bydd plant yr ysgol yn mynychu gwasanaethau cyhoeddus yn eglwys y pentref, e.e adeg  y Diolgchagrwch, Nadolig a'r Pasg. Trwy hyn maent yn derbyn profiadau gwerthfawr o eistedd a gwrando ar wasaneath gydag aelodau o'r gymuned, ymddwyn yn briodol mewn addoliad eglwys a chael profi awyrgylch a naws arbennig.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Plant i gymeryd mwy o ran mewn addoliad dyddiol e.e creu gweddiau byr-fyfyr, perffromio dramodig ac ati

| Rhagorol | | Da | * | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: MHOwen (Pennaeth)

Dyddiad: 3/10/14

**Enw'r Ysgol:YSGOL CRUD Y WERIN**

## Addysg Grefyddol

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
Y CYFNOD SYLFAEN
Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau.
Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Amser Caleb wedi bod yn gymorth i hywyddo hyn.
Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen a bydd lleiafrif o blant yn dechrau dod i gydnabod fod ystyr ddyfnach i symbolau crefyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae ychydig iawn yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.
Gall lleiafrif o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae bron pob un disgybl yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hwy gan gynnig eu barn eu hunain.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd.

Buddsoddiad a defnydd effeithiol o lyfrau 'Cwestiynau pwysig mewn Crefydd' wedi bod yn modd o godi safonau yn y pwnc.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN**
- Parhau i ddatblygu geirfa a gallu'r disgyblion i gwestiynu gan gynnig cyfleoedd iddynt fynegi barn erbyn brig y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**
- Sicrhau fod y tasgau a ddarperir ar gyfer y grŵp mwy galluog yn heriol wrth weithio drwy'r cwestiynau sylfaenol, crefyddol a dynol.

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u

hannog i gyrraedd safonau uchel.

- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
- Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un blwyddyn i'r llall o ganlyniad i gynllunio gofalus.
- Mae ystod eang o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.

Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir sesiwn o  o leiaf awr ar gyfer Addysg Grefyddol ardraws Cyfnod Allweddol 2. Addysgir y maes gan athrawes CPA o flwyddyn 3 i 6.
- Fel canlyniad i hyfforddiant, archebu adnoddau cyfoethog sydd yn dyfnhau ymhellach ddealltwriaeth yr athrawes o'r maes y mae'r ddarpariaeth yn dda iawn ar draws y cyfnod.
- Mae'r cynlluniau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad, mae rhoddi sylw i gwestiynau mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi y disgyblion.
- Manteisir ar y cyfleoedd i fynd a'r plant allan ar ymweliadau ag addoldai ac i wahodd ymwelwyr i drafod materion Addysg Grefyddol â'r plant megis yr eglwys yn Aberdaron

Mae ansawdd addysgu a'r ddarpariaeth yn Cyfnod Allweddol 2 yn dda.

**Materion i gael sylw**
**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr o fewn y cynlluniau.
- Athrawon i barhau i gyd-drafod a bod yn ymwybodol o adnoddau newydd sydd ar gael e.e. mewn TGCh
- Parhau i annog y  plant i ddatblygu sgiliau meddwl.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Parhau i osod MPLl a rhoddi cyfle i'r plant fyfyrio ar y dysgu.
- Angen datblygu cysylltiadau a chymunedau crefyddol pellach e.e. ymweld a mosg

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** √ | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' | | |

(ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth, cyfnod ac ysgol. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad.

Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd.

Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.
- Gweddïo
- Canu
- Darllen

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o'r sesiynau. Elfen o ragoriaeth yw'r ffordd mae'r plant yn gyfrifol am agweddau o'r seiynau addoli ar y cyd e.e. dewis caneuon, chwarae offerynau wrth i'r plant ddod i fewn i'r neuadd, dewis testunau, creu gweddiau yn ddwyieithog.

Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda gydag agweddau rhagorol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- **Efelychu yr arferion rhagorol ymhob gwasanaeth**
- **Sicrhau fod A ar y C dosbarth/adran(CS) yn cydymffurfio â rheoliadau a gofynion**
- **Sicrhau fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag A ar y C**

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Alan Jones(Pennaeth)

Dyddiad: 1/7/2013

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt: FfionHughes2@gwynedd.gov.uk 01286 679921**

**Enw (Clerc CYSAG): John Blake (dros-dro)**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Edern (2046)**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Yn ôl arsylwadau gwersi Add Grefyddol a chraffu ar lyfrau thematig mae'r safonau yn dda.
- Yn ôl holiadur disgyblion maent yn mwynhau'r gwersi a'r addoli ar y cyd.
- Mae agweddau o'r fframwaith llythrennedd yn cael eu cyflwyno drwy Add Grefyddol, o graffu ar lyfrau mae'r gwaith yma ar lefel briodol i oedran y plant.
- Cynllun tymor hir a chanolig manwl yn eu lle sy'n sicrhau cwricwlwm cytbwys ac eang.
- Drwy eu holi mae gwybodaeth bron pob disgybl am grefydd a chrefyddau yn dda iawn ee. Gwybodaeth am lyfrau Sanctaidd.
- Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio'u gwybodaeth i gynllunio a sgriptio gwasanaethau eu hunain.
- Mae cyswllt da rhwng yr ysgol ag elusennau megis Cymorth Critnogol, Masnach Deg, Action Aid.
- Mae'r cyngor ysgol yn cynnal gweithgareddau i dynnu sylw a chodi arian.
- O holiadur plant a'r rhieni mae gwerthoedd megis parch, goddefgarwch a diolch yn agwedd bwysig o fywyd yr ysgol.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae safonau'r ysgol yn dda.
- Mae gan y rhan fwyaf o blant wybodaeth drylwyr o agweddau o'r maes gan gynnwys gwybodaeth am grefyddau eraill.
- Drwy asesu a defnydd o system dracio gwelir bod bron pob plentyn yn gwneud cynnydd o flwyddyn i flwyddyn.
- Mae safon y gwasanaethau gynllunir a gyflwynir gan y plant yn dda.

**Materion i gael sylw**

- Parhau i gyflwyno agweddau asesu ar gyfer dysgu yn y gwersi.

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Add Grefyddol yn dda.
- Mae gan yr ysgol athro sydd a gofal am y maes ond mae'n cael ei gyflwyno gan gymhorthydd dysgu lefel uwch drwy'r ysgol.
- Mae gwybodaeth bynciol y cymhorthydd lefel uwch yn dda iawn.
- Mae pob dosbarth yn gael gwers Addysg Grefyddol yn wythnosol sy'n briodol i'w hoedran. Golyga hyn bod o leiaf 1 awr wythnosol i'r maes.
- O arsylwadau mae'r gweithgareddau diddorol a heriol wedi eu cynllunio yn ofalus, mae gan yr ysgol amrediad da o adnoddau diweddar, perthnasol.
- Mae'r gwersi yn y CS yn cael eu plethu i weithgareddau trawsgwricwlaidd gyda elefen o ddewis i'r plant.
- Mae gwersi CS a CA2 yn cynnwys nifer fawr o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau'r fframwaith llythrennedd.
- Mae'r athro yn nghofal y maes wedi arsylwi gwersi gyflwynir gan y cymhorthydd ac roedd y farn yn dda.
- Mae llywodraethwr dynodedig Add Grefyddol wedi arsylwi gwersi, creu adroddiad a'i chyflwyno i weddill y llywodraethwyr. Roedd yn canmol yr hyn arsylwodd.
- Mae'r ysgol yn tracio cynnydd y plant i gyd ar system electronig, bydd Add Grefyddol yn cael ei asesu yn ffurfiol unwaith y flwyddyn neu pan mae agwedd benodol wedi ei gyflwyno. Bydd y data yma yn cael ei ddadansoddi a'i drafod ar ddiwedd blwyddyn i sicrhau bod agweddau sydd angen sylw yn dod i'r amlwg.
- Mae teithiau addysgol yn ychwanegu at ddealltwriaeth y plant – ymweliadau megis Mosg Bangor ac Eglwys Uniongred Ffestiniog a mynd ar bererindod i Glynnog Fawr i Aberdaron.
- Mae nifer o agweddau o ddefodau Cristnogol wedi dod yn fyw drwy gynnal priodas a bedydd yn yr eglwys leol.

Adroddiad lawn am y bedydd ar safle www.addysg-grefyddol-gymraeg.org

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae cynllunio Add Grefyddol yn drylwyr iawn, cynlluniau tymor hir a chanolig yn eu lle.
- Defnyddir amrediad o strategaethau i'w gyflwyno o waith iaith, trafod, drama, celf,ayyb.
- Cynllunir gylch o ymweliadau i lefydd crefyddol sydd yn greiddiol i sawl thema.
- Defnyddir agweddau o Asesu ar Gyfer Dysgu yn y gwersi ee. Defnydd o feini prawf llwyddiant, hunan werthuso a gwerthuso cyfoedion.

**Materion i gael sylw**

- Sicrhau y cyllid a'r arbennigedd pesennol er mwy parhau? Darpariaeth dda yma, angen ei gadw.
- Parhau i gyflwyno agweddau o AaGD yn y gwersi yn unol a CDY yr ysgol.

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **X** | **Nac ydy** |
|---|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae'r plant yn cyrraedd safonau da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae naws arbennig i'n cyfarfodydd cyd-addoli ac mae'r phlant yn cyfrannu'n effeithiol.
- Mae cyswllt agos rhyngom â'r eglwys a'r capel leol a daw arweinwyr crefyddol amrywiol i'r ysgol i gyd-addoli.
- Mae addoli ar y cyd- yn digwydd yn ddyddiol yn yr ysgol (dosbarth neu neuadd).
- Bydd yr ysgol yn gwahodd ymwelwyr allanol i'r ysgol yn rheolaidd ee. Trobwynt, ficer lleol ac mae'r plant i gyd yn mwynhau clywed lleisiau newydd.
- Bydd yr ysgol yn cynnal gwasanaethau achlysurol i rieni a thrigolion yr ardal ee. Diolchgarwch, Nadolig.
- Mae'r disgyblion wedi arfarnu cyd-addoli o fen yr ysgol a'r ysgol wedi ymateb i hyn.
- Trafodir y newyddion y byd yn gyson, mae hyn yn atgoffa'r plant o'u rhan a chyfrifoldeb yn y teulu byd eang ac yn datblygu'r syniad o gonsyrn a diddordeb yn ni gwyddiadau tu hwnt i'w milltir sgwâr.
- Mae'r llywodraethwr dynodedig Add Grefyddol wedi arsylwi gwasanaethau gan gyflwyno adroddiad i weddill y corff. Roddwyd sylwadau positif iawn am drefn yr ysgol, y cynnwys ac agwedd y disgyblion.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Yn dilyn arfarniad gan y plant mae'r disgyblion hynaf eisiau mwy o ran yn y gwasanaethau (hyn wedi dechrau ers Pasg 2014).
- Roedd nifer o'r plant yn meddwl bod y gwasanaeth torfol yn parau' rhy hir (30%) - hyn wedi ei addasu ers Pasg 2014
- Creu arddangosfeydd o ddathlu a llwyddiant yn y neuadd.

| **Rhagorol** | | **Da** | X | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: G L Evans (Pennaeth)

Dyddiad: 2/10/14

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

